# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2011** |
| Amser: | **10: - 12:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400001_13_07_2011&t=0

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Andrew RT Davies (Cadeirydd)**<br>**Byron Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Julie James**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**William Powell**<br>**David Rees**<br>**Ken Skates**<br>**Joyce Watson**<br>**Leanne Wood** |
| Tystion: | **Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau**<br>**Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau**<br>**Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**<br>**Owen Evans, Cyfarwyddwr, Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes**<br>**Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**<br>**Jeff Collins, Cyfarwyddwr, Y Grŵp Seilwaith**<br>**Tim James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rhwydweithiau a Chynllunio** |
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Clerc)**<br>**Ryan Bishop (Dirprwy Glerc)** |

### 1. Ymddiheuriadau a Dirprwyon (10:00 - 10:05)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nid oedd dim ymddiheuriadau.

## 2. Craffu ar waith y Gweinidog : Addysg a Sgiliau (10.05 - 11.00)
2.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a'u swyddogion i'r cyfarfod. Cafodd y Gweinidogion eu holi gan yr Aelodau.

2.2 Cytunodd y Gweinidogion i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

- Data ychwanegol am y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn y maes adeiladu
- Adroddiad ynghylch y diweddaraf am y 18 cam gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015
- Gwybodaeth am y cyfraddau o bobl sy'n rhoi'r gorau i brentisiaethau.

## 3. Craffu ar waith y Gweinidog : Trafnidiaeth (11.00 - 12.00)
3.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, a'i swyddogion, i'r cyfarfod.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am:
- Newidiadau i werthuso a monitro prosiectau trafnidiaeth i reoli gorwariant
- Argaeledd arian cydgyfeirio ar gyfer trydaneiddio'r cyswllt rheilffordd rhwng Abertawe a Llundain, a'r cyfrifoldeb dros ariannu'r gwaith hwn
- Cyflwyno trenau deufodd, a'r cynnig i dreialu'r rhain ar y llwybr rhwng Caerdydd ac Abertawe
- Yr angen i wella'r cysylltiadau seilwaith rheilffordd heibio i Gaerdydd
- Achos busnes Llywodraeth flaenorol y DU dros drydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe, a'r newidiadau sydd wedi digwydd ers llunio hynny
- Y newid yn y cydbwysedd gwariant rhwng prosiectau ffyrdd a rheilffyrdd, a'r cynlluniau ynghylch beth ddylai'r cydbwysedd hwn fod yn y dyfodol
- Cynnydd o ran cyflwyno gwasanaeth bob awr rhwng Amwythig ac Aberystwyth
- Y rhaglen Gwelliant Cenedlaethol i orsafoedd trenau

## 4. Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau
4.1Roedd llythyr wedi cyrraedd oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, a chytunodd y Cadeirydd i'w ddosbarthu i'r Aelodau.

## Trawsgrifiad
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.